**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Cofnodion cyfarfod**
**Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr**
**yn y Swyddfeydd Dinesig ar 16 Mawrth 2020**

**Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol**
Mr R Davies (RD) Cadeirydd Rheolwr Grŵp – Strategaeth a Pherfformiad Busnes
Mrs D Davies (DD) Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr

**Cynrychiolwyr ysgolion**
Mr John Tarran (JT) Is-gadeirydd Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis
Mrs Sharon Jayne (SJ) Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
Mr Andrew Slade (AS) Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl

**Cynrychiolwyr llywodraethwyr**
Mr W Bond (WB) Ysgol Gynradd Croesty

**Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod**
Ms C Christy (CC) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mr C Smith, Ms K John, a Mr J Evans. Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs A Keller.

Diolchodd RD yr aelodau a oedd yn bresennol am fynychu, o ystyried y sefyllfa bresennol.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2019

Cafodd cofnodion y cyfarfod eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 3. Materion sy'n codi

Nid oedd unrhyw faterion sy'n codi.

## 4. Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2018–2019

Amlygodd DD fod yr awdurdod lleol wedi gofyn am eglurhad gan Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath ynglŷn â nifer derbyn cyhoeddedig terfynol yr ysgol, gan fod y ffigwr yn llawer mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig a nodwyd gan yr awdurdod lleol. Ac ymateb heb ei dderbyn eto, roedd yr adroddiad wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru yn cynnwys cafeat bod y mater yn cael ei archwilio o hyd.

Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru a dywedodd DD na chafwyd unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar adroddiadau blynyddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dywedodd CC nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel arfer yn derbyn unrhyw ymateb neu adborth gan Lywodraeth Cymru ar ei adroddiadau blynyddol.

**5. Polisi Derbyniadau Ysgolion 2021–2022**

Dywedodd DD na chyflwynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a bod y polisi wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

**6. Adroddiad Lleoedd Ysgol a Dangosfwrdd Prototeip Derbyniadau, Tymor yr Hydref 2019**

Cyflwynodd DD yr adroddiad i'w drafod, gan egluro mai'r bwriad yw cynhyrchu'r adroddiad bob tymor. Gwahoddwyd aelodau i roi adborth ar yr adroddiad prototeip, i lywio cynnwys adroddiadau yn y dyfodol.

Cymeradwyodd RD gynnwys cynhwysfawr, addysgiadol yr adroddiad a'r gwaith a oedd wedi bod yn rhan o'i gynhyrchu.

Amlygodd RD a DD nifer o bwyntiau penodol, gan gynnwys yr wybodaeth am argaeledd lleoedd ysgol ar draws y clystyrau a'r sir yn ei chyfanrwydd a mannau lle ceir pwysau.  Nodwyd bod yr adroddiad yn cadarnhau nad oes ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n llawn. Amlygodd RD y pwysau mewn grwpiau blwyddyn penodol mewn ardaloedd penodol – er enghraifft, ym Mracla, ardaloedd ym Mhorthcawl a Phencoed, ac mewn grwpiau blwyddyn penodol.

Roedd y ganran sylweddol o geisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn i blant sy'n symud i'r sir o bwys arbennig. Dywedodd RD, pan fydd datblygiadau tai newydd yn cael eu hadeiladu, eu bod yn denu llawer o deuluoedd ifanc i'r ardal, sy'n effeithio ar nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael.

Amlygodd RD y cynnydd sylweddol yn nifer yr apeliadau derbyn a gofrestrwyd a thrafodwyd y rhesymau posibl dros y cynnydd. Ystyriwyd bod rhieni, yn rhannol, yn dod yn fwy parod i ymarfer eu hawl i apelio.

Amlygodd DD mai Ysgol Gynradd Pencoed oedd â'r nifer fwyaf o apeliadau wedi'u cofrestru o'i chymharu ag ysgolion cynradd eraill. Amlygodd CC fod nifer o rieni sy'n byw yn agos at y ffin neu arni yn cysylltu â Thîm Derbyn Rhondda Cynon Taf, gan ofyn am fynediad i Ysgol Gynradd Dolau gan fod lle wedi cael ei wrthod iddynt yn Ysgol Gynradd Pencoed.

Dywedodd DD fod yn rhaid esbonio'r rhesymau dros y niferoedd ar y gofrestr mewn unrhyw grŵp blwyddyn sy'n fwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig yn fanwl yn natganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol ac mewn gwrandawiadau apeliadau.

Roedd diddordeb gan JT am yr effaith ganlynol ar Ysgol Gynradd Croesty yn sgil gwrthodiadau yn Ysgol Gynradd Pencoed.

Cyfeiriodd DD at yr apêl gyntaf dros wrthod lle mewn ysgol Gymraeg, a oedd wedi digwydd yn ddiweddar iawn, ond nid oedd y canlyniad yn hysbys eto. Amlygodd DD a oedd yn rhaid rhoi esboniadau manwl ar y rhesymau pam oedd nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn sylweddol uwch na'r nifer derbyn cyhoeddedig. Yn fras, y prif reswm oedd y cynnydd mawr mewn ceisiadau derbyn ar gyfer derbyniad y dosbarth derbyn ym mis Medi 2015 yn y sir, gan arwain at benderfyniad i dderbyn niferoedd a oedd yn rhagori ar y nifer derbyn cyhoeddedig i bob ysgol Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y niferoedd a dderbyniwyd i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi mynd y tu hwnt i'r nifer derbyn cyhoeddedig gan y nifer fwyaf. Nid ailadroddwyd y sefyllfa ers hynny.

Dywedodd JT fod croeso mawr i'r adroddiad, a'i fod yn drylwyr ac yn hawdd ei gymhathu. Gofynnodd JT a fyddai modd darparu copi o'r adroddiad i bob pennaeth.

Esboniodd RD a DD y byddai'r adroddiad yn debygol o gael ei gyflwyno i Dîm Pen-y-bont ar Ogwr yn gyntaf, fel bod modd esbonio'r data a'r materion, ac wedyn byddai'r holl adroddiadau dilynol yn cael eu hanfon i ysgolion neu eu rhoi ar y gyriant Q. Dywedodd DD y byddai'n fodlon trafod y sefyllfa a'r data ar gyfer unrhyw ysgol benodol â'r pennaeth.

**7. Diweddariad rowndiau derbyn 2020–2021**

O ran y rownd dderbyn i ysgolion uwchradd ar gyfer mis Medi 2020, dywedodd DD fod lleoedd Blwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Bryntirion wedi'u gordanysgrifio. Roedd yn angenrheidiol i wrthod 14 o geisiadau ar y dechrau. Fodd bynnag, ers y dyddiad cynnig, roedd lleoedd wedi dod ar gael gan fod rhieni/gofalwyr a oedd wedi gwneud cais i Ysgol Gyfun Bryntirion ac Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath wedi penderfynu derbyn lleoedd yn yr ysgol olaf. O ganlyniad, dyrannwyd deg lle arall yn Ysgol Gyfun Bryntirion, gan adael pedwar gwrthodiad, gydag apeliadau wedi'u cofrestru ar gyfer tri ohonynt.

Gofynnodd JT a oes gan y rhieni a oedd wedi gwneud cais am Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath ac Ysgol Gyfun Bryntirion blant sy'n mynychu ysgolion bwydo Ysgol Gyfun Bryntirion. Esboniodd RD a DD nad oes ysgolion bwydo fel y cyfryw, dim ond dalgylchoedd, ond y bu tueddiad yn hanesyddol i rieni disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai geisio am leoedd yn Ysgol Gyfun Bryntirion. Esboniwyd ymhellach fod pentref Pen-y-fai wedi'i leoli yn nalgylch Coleg Cymunedol y Dderwen. Dywedodd DD fod allan o gyfanswm o 30 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys

yng Nghymru Pen-y-fai, yr oedd 28 ohonynt wedi gwneud ceisiadau ar gyfer lleoedd Blwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Bryntirion.

Dywedodd JT fod pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn cael anawsterau o ganlyniad i rieni'n gwneud cais am y ddwy ysgol, gan fod lleoedd yn gyfyngedig ac yn cael eu dyrannu i ddisgyblion y byddai'n well gan eu rhieni dderbyn cynnig lle yn Ysgol Gyfun Bryntirion ac sy'n aros am hynny i ddigwydd. Cwestiynodd JT a oedd gwendid yn y broses dderbyn ac a yw'n bosibl i'r awdurdod lleol gadarnhau a oedd rhieni wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer y ddwy ysgol, naill ai drwy ofyn cwestiynau ar y ffurflenni cais neu drwy gyswllt uniongyrchol ag Ysgol yr Archesgob McGrath. Cyfeiriodd RD a DD at gŵyn a godwyd gyda'r awdurdod lleol flwyddyn yn ôl a her i hawl yr awdurdod lleol a'r ysgol i gysylltu a hwythau'n gyrff derbyn ar wahân.

Cwestiynodd JT a oedd modd i ddyddiad cynnig Ysgol yr Archesgob McGrath fod cyn y dyddiad cynnig cenedlaethol, fel y bydd rhieni'n ymwybodol o unrhyw gynnig o le yn yr ysgol honno cyn i'r awdurdod lleol ryddhau ei gynigion ef. Cadarnhaodd RD a DD fod y gofyniad i'r holl gyrff derbyn gydymffurfio â'r dyddiad cynnig cenedlaethol yn rhan o'r cod statudol ac, felly, ni all Ysgol yr Archesgob McGrath gynnig lleoedd cyn y dyddiad cynnig cenedlaethol.

Cyfeiriodd DD at y rowndiau derbyn sydd ar ddod ar gyfer dosbarthiadau derbyn a meithrin. Ar gyfer derbyniadau dosbarth derbyn ar gyfer mis Medi, nodwyd y bydd yr awdurdod lleol yn debygol o wneud gwrthodiadau mewn dwy ysgol. Nodwyd bod y rownd dderbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin ar agor o hyd ond bod y niferoedd yn dangos achosion o ordanysgrifio mewn rhai ysgolion.

Cyfeiriodd DD at nifer uchel y ceisiadau hwyr am leoedd dosbarth derbyn, er gwaethaf yr ymgyrch helaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a llythyrau at rieni trwy ysgolion. O ran y dosbarth derbyn, ni all yr awdurdod lleol ragweld cyfanswm y ceisiadau, gan nad yw addysg cyn hyn yn statudol ac ni fydd yr holl blant eisoes yn mynychu ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn dosbarth meithrin.

Dywedodd JT fod ei ysgol yn profi problem gyda rhieni yn gwneud cais am leoedd dosbarth meithrin sy'n cael eu dyrannu iddynt ond, pan ddaw mis Medi, nid yw'r plant yn mynychu. Mae hyn yn cael effaith ariannol ar yr ysgol. Dywedodd DD fod yr awdurdod lleol yn profi sefyllfa debyg bob blwyddyn, yn enwedig o ran lleoedd dosbarth meithrin rhan-amser.

**8. Unrhyw faterion eraill**

Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.

Diolchodd RD i bawb oedd yn bresennol.